

Adroddiad Arolygu ar gyfer Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

The Derma Lounge

Dyddiad yr arolygiad: 27 Ebrill 2026

Dyddiad cyhoeddi: 28 Gorffennaf 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau amgen gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80853-084-5

© Hawlfraint y Goron 2026



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Rydym yn:

Annibynnol – rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

Ein Blaenoriaethau

Rhoi Pobl yn Gyntaf – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

Buddsoddi yn Ein Pobl – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

Cymryd Camau sydd o Bwys – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom	6
2. Crynodeb o'r arolygiad	7
3. Yr hyn a nodwyd gennym.....	10
Ansawdd Profiad y Claf	10
Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	14
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	19
4. Y camau nesaf.....	20
Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	21
Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	22
Atodiad C – Cynllun gwella	28



1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o The Derma Lounge ar 27 Ebrill 2026.

Cynhaliwyd yr arolygiad gan ddau arolygydd gofal iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o naw holiadur. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Rhoddodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC ymatebion cadarnhaol i bob cwestiwn, a gwnaethant ddweud bod y gwasanaeth yn 'dda iawn' ar y cyfan. Dywedodd y cleifion fod y gwasanaeth yn broffesiynol ac yn barchus, a dywedodd un y byddai'n ei 'argymell yn fawr'. Roedd mesurau addas ar waith i gynnal preifatrwydd ac urddas drwy gydol triniaethau.

Gwelsom y gallai'r rheolwr cofrestredig rannu ei gwybodaeth yn glir am y triniaethau laser a gynigir. Dywedwyd wrthym fod amddiffyn y croen rhag yr haul yn cael ei drafod yn rheolaidd â chleifion. Fodd bynnag, nid oedd arwyddion dim smygu wedi'u harddangos er mwyn hyrwyddo amgylchedd iach a diogel ar y safle. Byddai cleifion yn cael eu cyfeirio'n briodol at eu meddyg teulu neu fferyllydd lleol am gyngor iechyd arall neu mewn perthynas â phryderon iechyd a ddatgelwyd ganddynt.

Roedd gwybodaeth am y gwasanaeth ar gael ar ei wefan a'i sianeli cyfryngau cymdeithasol, mewn taflenni gwybodaeth, ac ar lafar drwy sgwrsio â'r rheolwr cofrestredig. Fodd bynnag, gwelsom fod angen diweddarau'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben. Nid oedd y canllaw i gleifion ar gael i gleifion fel mater o drefn chwaith.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Arddangos arwyddion dim smygu na feipio er mwyn hyrwyddo iechyd a llesiant yn yr ystafell drin ac yn ardaloedd eraill y safle y mae cleifion yn mynd iddynt
- Gwneud y newidiadau angenrheidiol i'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben a sicrhau bod y canllaw i gleifion ar gael i gleifion
- Myfyrio ar sut y gellid cynnig gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg fel sy'n berthnasol i'r boblogaeth leol ac yn unol â gallu'r rheolwr cofrestredig ac adnoddau'r gwasanaeth.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yn dangos ymarfer cynhwysol wedi'i ategu gan bolisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Gellid cysylltu â'r gwasanaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y gwasanaeth wedi sefydlu rhai systemau priodol i gefnogi'r broses o ddarparu triniaethau laser diogel. Roedd y rheolwr cofrestredig wedi ymgymryd â hyfforddiant perthnasol ar weithredu peiriannau laser ac roedd asesiadau risg a phrotocolau laser cynhwysfawr ar gael ac wedi'u llywio gan Gynghorydd Diogelu rhag Laser.

Nododd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod yn teimlo bod y clinig yn 'lân iawn'. Fodd bynnag, gwnaethom nodi pryderon sylweddol mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau a diogelwch rhag tân hefyd.

Roedd angen ystyried agweddau cyffredinol ar iechyd a diogelwch yn fanylach a datblygu proses i sicrhau bod y rheolwr cofrestredig yn cael diweddariadau gan gyrff rheoleiddio, proffesiynol a statudol perthnasol i lywio ymarfer diogel. Roedd angen gwneud gwelliannau i gofnodion cleifion ac roedd angen amserlen ar gyfer eu cadw.

Aethpwyd i'r afael â phryderon ynghylch diogelu a'r weips glanhau a oedd ar gael yn y pecyn cymorth cyntaf yn ystod yr arolygiad.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Ni allai AGIC fod yn sicr bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) (2011) 9(n) gan nad oedd y polisïau a'r gweithdrefnau yn ymwneud â rheoli heintiau yn ddigon manwl
- Ni allai AGIC fod yn sicr bod y gwasanaeth yn cydymffurfio ag Erthyglau Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cynnal asesiad risg iechyd a diogelwch mwy cynhwysfawr
- Datblygu cofnodion cleifion ac amserlen gadw addas ar eu cyfer
- Dangos gofal mewn perthynas â rhoi diweddariadau i ymarfer nad ydynt wedi'u cadarnhau'n ffurfiol drwy ymchwil ar waith, a datblygu proses i sicrhau bod y rheolwr cofrestredig yn cael diweddariadau gan gyrff rheoleiddio, proffesiynol a statudol perthnasol i lywio ymarfer diogel.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd mynediad i'r ystafell laser a thrin wedi'i ddiogelu'n addas

- Roedd yr ystafell drin yn fach ond yn drefnus
- Roedd tystiolaeth ar gael o brofion ar y cyflenwad nwy a thrydan yn ogystal â phrofion dyfeisiau cludadwy.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yswiriant atebolrwydd cyhoeddus addas ar waith. Cawsom sicrwydd bod y rheolwr cofrestredig yn ymwybodol o swyddogaeth reoleiddio AGIC. Ar adeg yr arolygiad, roedd y gwasanaeth wedi bod yn gofrestredig ac yn weithredol ers tua 18 mis, a dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei bod yn croesawu arolygiad fel proses i'w helpu i ddarparu gwasanaeth diogel sy'n bodloni pob gofyniad. Nid oedd unrhyw gynlluniau i ehangu'r gweithlu na strwythur y busnes o gael ei weithredu gan unig fasnachwr, a dywedodd y rheolwr cofrestredig y byddai'n ceisio cyngor gan AGIC ynghylch y gofynion rheoleiddiol pe bai hyn yn newid.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Tystysgrifau cofrestru ac amodau cofrestru AGIC yn y Gymraeg a'r Saesneg

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y broses gwyno yn cyfeirio cleifion at AGIC i fynegi pryderon neu wneud cwynion ynghylch eu triniaeth pe na baent yn dymuno cysylltu â'r gwasanaeth yn uniongyrchol.
- Roedd y rheolwr cofrestredig wedi cael gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn ddiweddar i ddangos ei bod yn addas o ran ei huniondeb a'i chymeriad da ar gyfer ei gwaith yn The Derma Lounge.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Rhoddodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC ymatebion cadarnhaol i bob cwestiwn, a gwnaethant ddweud bod y gwasanaeth yn 'dda iawn' ar y cyfan.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Yn broffesiynol iawn ac yn wybodus am y gwasanaethau, cafodd pob un o'm cwestiynau eu hateb"

"Glân iawn a'r staff yn anhygoel, yn broffesiynol iawn ac yn barchus"

"Gwasanaeth anhygoel"

"Byddwn yn ei argymhell yn fawr"

"Gwneir y defnydd gorau posibl o'r lle, gan ei bod yn ystafell fach...roedd yr hen gadair ychydig yn hen ffasiwn...cafodd ei newid yn syth ar ôl i mi fynegi fy marn"

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael eu hannog i ddefnyddio amddiffyniad rhag yr haul cyn ac ar ôl triniaeth neu wrth gael lliw haul ar adegau eraill. Roedd pryderon iechyd yr oedd cleifion yn eu datgelu neu'n ceisio cyngor yn eu cylch yn cael eu trafod i gadarnhau addasrwydd triniaethau, ac roedd cleifion yn cael eu cyfeirio at eu meddyg teulu neu'r fferyllfa leol pe bai angen cyngor meddygol pellach.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei bod wedi dod o hyd i glaf yn fepio yn nhoiled y safle yn ystod y 12 mis diwethaf. Fodd bynnag, nid oedd arwyddion dim smygu wedi'u harddangos er mwyn hyrwyddo amgylchedd iach a diogel ar y safle.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod arwyddion dim smygu na fepio yn cael eu harddangos er mwyn hyrwyddo iechyd a llesiant yn yr ystafell drin ac yn ardaloedd eraill y safle y mae cleifion yn mynd iddynt.

Urddas a pharch

Gwelsom fod The Derma Lounge yn darparu triniaethau gwaredu blew drwy laser o un ystafell drin ar yr islawr. Gellid cloi drws yr ystafell drin ac roedd gorchuddion ar y ffenestri i amddiffyn preifatrwydd cleifion. Roedd protocolau, ynghyd â darparu tywel gorchuddio, hefyd yn hyrwyddo urddas cleifion wrth iddynt baratoi ar gyfer triniaeth a

chael triniaeth. Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno bod mesurau wedi'u rhoi ar waith i ddiogelu eu preifatrwydd.

Gallai cleifion ddod â'u hebryngwr eu hunain gyda nhw pe baent yn dewis gwneud hynny. Fodd bynnag, roedd angen diweddarau dogfennau'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben i adlewyrchu hyn.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben yn cael eu diweddarau er mwyn rhoi gwybod i gleifion y gallant ddod â hebryngwr gyda nhw i apwyntiadau os byddant yn dymuno gwneud hynny.

Dangosodd y rheolwr cofrestredig arddull gyfathrebu groesawgar a pharchus yn ystod ei thrafodaethau â'r arolygwyr gofal iechyd.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Gwelsom fod polisi cydsynio priodol ar waith. Roedd gwybodaeth am driniaethau hefyd wedi'i chyflwyno'n glir ar y wefan, a dywedwyd wrthym fod trafodaethau cadarn ynghylch prosesau triniaethau, y costau, y risgiau, y manteision ac addasrwydd cleifion unigol yn cael eu cynnal yn ystod ymgynghoriadau cychwynnol ac ar ddechrau sesiynau trin. Roedd sgysiau cydsynio cychwynnol yn cael eu cynnal o leiaf 48 awr cyn dechrau unrhyw driniaeth. Roedd hyn yn sicrhau y gellid cwblhau profion croen a bod cleifion yn cael amser i ystyried gwybodaeth a gwneud penderfyniad rhesymegol ynghylch y driniaeth. Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth cyn ac ar ôl eu triniaeth. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y canllaw i gleifion ar gael i gleifion fel mater o drefn, a bod angen iddo gyfeirio'n glir at restr brisiau'r gwasanaeth, fel y gellid gweld yr holl wybodaeth yr oedd ei hangen ar gleifion i wneud penderfyniadau ynghylch triniaeth gyda'i gilydd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y canllaw i gleifion ar gael i gleifion fel mater o drefn a'i fod yn cyfeirio'n glir at restr brisiau'r gwasanaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Gwelsom fod gwybodaeth am y gwasanaeth ar gael ar ei wefan a'i sianeli cyfryngau cymdeithasol, mewn taflenni gwybodaeth, ac ar lafar drwy sgwrsio â'r rheolwr cofrestredig. Gallai defnyddwyr gynyddu maint gwybodaeth a ddarparwyd yn ddigidol. Byddai trafodaethau â chleifion hefyd yn cadarnhau eu dealltwriaeth cyn sesiynau trin ac yn rhoi cyfle iddynt ofyn unrhyw gwestiynau. Gallai cleifion gysylltu â'r gwasanaeth drwy lwyfannau digidol, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. Gwelsom y gallai'r rheolwr

cofrestredig rannu ei gwybodaeth yn glir am y triniaethau laser a gynigir. Rhoddodd hefyd enghreifftiau i ni o achosion lle roedd teulu neu ffrindiau cleifion wedi cael eu cynnwys wrth ddarparu gwybodaeth, pan oedd y claf wedi gofyn am y cymorth hwn. Gwnaethom awgrymu y gallai'r rheolwr cofrestredig fyfyrir ar sut y gallai gynnig gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg fel sy'n berthnasol i'r boblogaeth leol ac yn unol â'i gallu ac adnoddau'r gwasanaeth.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd siartiau asesu'r croen gweledol ar gael ac yn cael eu defnyddio i lywio'r broses cynllunio gofal. Fodd bynnag, nid oedd cwestiynau safonol yn cael eu gofyn ynghylch arferion torheulo cleifion, ac roedd angen nodi rhesymau clir yng nghofnod cleifion i ddangos bod asesiad cadarn wedi'i deilwra at yr unigolyn wedi'i gwblhau.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod asesiadau cleifion yn cael eu cofnodi'n llawn er mwyn dangos bod proses cynllunio gofal ddiogel ar waith sydd wedi'i theilwra at yr unigolyn.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Gwelsom fod polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar waith a chawsom sicrwydd bod y gwasanaeth yn darparu triniaethau i amrywiaeth o gleifion heb wahaniaethu. Roedd y datganiad o ddiben yn nodi'n glir y byddai'n anodd i gleifion â phroblemau symudedd gael mynediad i'r ystafell drin. Dywedwyd wrthym y byddai'r rheolwr cofrestredig hefyd yn rhoi gwybod i gleifion bod yr ystafell drin i lawr grisiau. Fodd bynnag, roedd angen diweddarau'r canllaw i gleifion hefyd er mwyn sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael i gleifion.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r canllaw i gleifion er mwyn cynnwys gwybodaeth am fynediad i'r ystafell drin.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Dywedwyd wrthym y gallai cleifion adolygu'r gwasanaeth ar lwyfannau digidol, a gwelsom fod rhai o'r adolygiadau hyn wedi'u cyhoeddi ar y wefan. Roedd gweithdrefn pryderon a chwynion glir ar waith. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw wybodaeth am fynegi pryder neu wneud cwyn ffurfiol ar gael i gleifion, ac nid oedd unrhyw ffyrdd o roi adborth yn cael eu hyrwyddo ar wahân i ddulliau digidol. Gwnaethom hefyd drafod y posibilrwydd o gasglu canmolïaethau a gwybodaeth 'dywedoch chi, gwnaethom ni' yn flynyddol er mwyn rhoi adborth i gleifion ac i AGIC pe bai cais yn cael ei wneud am ddatganiad blynyddol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:

- **Bod cleifion yn cael gwybodaeth lawn am sut i fynegi pryder neu wneud cwyn, a'r camau a fyddai'n cael eu cymryd i ymdrin â'r rhain**
- **Bod canmolïaethau a gwybodaeth 'dywedoch chi, gwnaethom ni' a gasglwyd ar gael i gleifion ac at ddibenion arolygu ar gais.**

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Yr Amgylchedd

Gwelsom fod mynediad i'r ystafell drin a'r ased laser wedi'i ddiogelu'n addas. Roedd yr ystafell drin wedi'i threfnu fel bod yr adnoddau yr oedd eu hangen ar gyfer triniaethau laser ar gael yn hawdd i ddarparu gofal i gleifion, ond roedd gan y rheolwr cofrestredig gynlluniau i wella'r trefniadau storio ymhellach yn yr ardal fach.

Roedd Profion Dyfeisiau Cludadwy wedi'u cwblhau, ac roedd yr ystafell drin yn cael ei hisosod gan fusnes mwy a oedd yn goruchwyllo'r gwaith o gynnal a chadw'r cyflenwad nwy a thrydan ac a oedd wedi darparu dogfennau i gadarnhau bod profion diogelwch addas wedi'u cynnal.

Roedd arwyddion dihangfa dân a chynllun gweithredu yn weladwy i gleifion pe bai argyfwng, ac roedd diffoddwyr tân a oedd wedi'u cynnal a'u cadw'n addas ar gael ar y safle. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd cofnodion ar gael ynghylch cynnal a chadw'r darnau eraill o gyfarpar atal a chanfod tân ar y safle. Yn ogystal, roedd asesiad risg tân wedi'i gynnal ond nid oedd yn ystyried yn llawn addasrwydd y cyfarpar tân, y weithdrefn i'w dilyn pe bai tân yn digwydd, na mesurau lliniaru eraill ar gyfer peryglon tân, gan na allai'r rheolwr cofrestredig ddangos gwybodaeth yn y maes hwn. Roedd y llwybr dianc rhag tân wedi'i rwystro yn ystod yr arolygiad ac ni ellid ei ystyried yn ddigonol am fod cloeon ar y drysau dianc rhag tân ac ar bwyntiau mynediad eraill i'r adeilad. Ymdriniwyd â'n pryderon ynghylch y materion hyn o dan ein proses hysbysiadau diffyg cydymffurfio. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad B](#).

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Gwnaethom edrych ar yr asesiadau risg laser a generig yr oedd y rheolwr cofrestredig wedi'u cwblhau.

Roedd asesiadau risg a phrotocolau laser cynhwysfawr ar gael ac wedi'u llywio gan Gynghorydd Diogelu rhag Laser. Roedd y rheolwr cofrestredig hefyd wrthi'n gwneud ymholiadau gyda'r Cynghorydd Diogelu rhag Laserau i gadarnhau addasrwydd pâr newydd ychwanegol o sbectol ddiogelwch yr oedd wedi'i brynu i hebryngwyr ei ddefnyddio yn ystod triniaethau.

Roedd poster gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi'i arddangos i atgoffa'r rheolwr cofrestredig o'i chyfrifoldebau. Fodd bynnag, roedd angen i'r asesiad risg generig a oedd ar waith ystyried ystod ehangach o beryglon a mesurau lliniaru, gan

gynnwys Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd, risg legionella mewn perthynas â chawod nad oedd yn cael ei defnyddio ar y safle, a'r mesurau a oedd ar waith i gefnogi'r rheolwr cofrestredig i gynnal ei diogelwch ei hun wrth weithio ar ei phen ei hun.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gwblhau asesiad risg iechyd a diogelwch mwy cynhwysfawr, gan gynnwys yr agweddau a nodir yn yr adroddiad hwn.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod deunyddiau glanhau addas ar gael. Nododd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod yn teimlo bod y clinig yn 'lân iawn'. Fodd bynnag, gwelsom fod rhywfaint o lwch wedi cronni ar y peiriant laser, a bod marciau ar orchudd y gwely ac ar osodiadau yn yr amgylchedd cyffredinol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwaith glanhau yn cael ei gwblhau i safon gyson uchel er mwyn helpu i atal a rheoli heintiau.

Roedd y rheolwr cofrestredig yn gallu disgrifio gweithdrefnau glanhau addas. Nododd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod o'r farn bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn. Fodd bynnag, nid oedd y rheolwr cofrestredig wedi ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant ffurfiol ar atal a rheoli heintiau. Nid oedd y polisïau a'r gweithdrefnau atal a rheoli heintiau ysgrifenedig yn ddigon manwl ac nid oedd unrhyw gofnodion o waith glanhau yn cael eu cadw. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad B](#).

Roedd biniau offer miniog ar gael er mwyn sicrhau bod offer miniog a ddefnyddiwyd yn yr ystafell drin yn cael eu gwaredu'n ddiogel. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw finiau gwastraff clinigol ar wahân ar gael, ac nid oedd y contract gwaredu gwastraff yn cynnwys gwaredu gwastraff clinigol ochr yn ochr â gwaredu offer miniog mwyach. Trafodwyd y ffaith bod angen ailgyflwyno'r trefniant hwn er mwyn sicrhau bod eitemau wedi'u halogi â gwaed neu beryglon biolegol eraill yn cael eu gwaredu'n ddiogel yn dilyn triniaeth.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod trefniadau gwaredu gwastraff clinigol addas ar waith.

Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom edrych ar y pecyn cymorth cyntaf a oedd ar gael a gwelsom fod yr holl eitemau'n gyfredol. Fodd bynnag, roedd Asiantaeth Diogelwch lechyd y DU wedi cyhoeddi cyngor na ddylid defnyddio brand y weips glanhau dan sylw oherwydd y posibilrwydd y gallent fod wedi'u halogi. Felly, cafwyd gwared ar y weips hyn ar ddiwrnod yr arolygiad. Rhoddwyd gwybod i'r rheolwr cofrestredig am frandiau i'w hosgoi wrth archebu rhai newydd.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei bod wedi ymgymryd â hyfforddiant ar adfywio brys a'i bod yn gwybod ble roedd y diffibriliwr agosaf pe bai angen iddi ei ddefnyddio. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym y byddai'n gofyn i'r fferyllfa leol am gyngor cymorth cyntaf pe bai'n ansicr. Roedd hyfforddiant cymorth cyntaf ychwanegol hefyd yn cael ei drefnu er mwyn cynyddu ei gwybodaeth a'i hyder ynghylch sut i ymateb mewn sefyllfaoedd lle byddai angen rhoi cymorth cyntaf, yn enwedig i atgyfnerthu ei gwybodaeth am y cymorth cyntaf addas ar gyfer llosgiadau, gan fod hyn yn berthnasol i driniaethau laser.

Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed

Gwelsom fod y rheolwr cofrestredig wedi ymgymryd â hyfforddiant diogelu addas a bod polisi diogelu ar waith. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd digon o fanylion yn y polisi hwn i gefnogi ymateb addas pe bai pryderon ynghylch diogelu yn cael eu nodi. Trafodwyd y posibilrwydd o ddefnyddio ap Gweithdrefnau Diogelu Cymru, a lawrlwythodd y rheolwr cofrestredig hwn i'w ffôn yn ystod yr arolygiad. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad A](#). Yn ogystal â'r camau a gymerwyd ar y diwrnod, gwnaethom argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig ymgyfarwyddo â'r asiantaethau lleol y gellid atgyfeirio neu gyfeirio cleifion atynt mewn perthynas â phryderon ynghylch diogelu, a blaengynllunio ar gyfer rhai senarios posibl. Roedd y rheolwr cofrestredig yn gallu disgrifio'r camau y byddai'n eu cymryd pe bai ganddi reswm dros amau a oedd gan glaf y galluedd meddyliol i gydsynio i driniaeth.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod y peiriant laser wedi'i gofrestru'n briodol a bod cofnodion gwasanaethu a chalibradu blynyddol ar gael. Roedd y rheolwr cofrestredig yn ymwybodol o holl nodweddion y peiriant laser, a disgrifiodd yr archwiliadau gweledol, y broses ar gyfer newid y dŵr, a'r profion cychwyn diagnostig y byddai'n eu cwblhau o ddydd i ddydd er mwyn sicrhau bod y peiriant yn parhau'n addas i'w ddefnyddio. Roedd mesurau diogelwch ar waith i atal mynediad heb awdurdod i'r laser a'r ardal drin, neu ddefnydd ohonynt heb awdurdod.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd protocolau meddygol safonol ar gael a thrafodwyd y posibilrwydd y gallai'r rheolwr cofrestredig wirio'n rheolaidd am ddiweddariadau er mwyn sicrhau ei bod yn defnyddio'r fersiynau diweddaraf i lywio triniaethau diogel.

Gwelsom dystiolaeth bod y rheolwr cofrestredig wedi ymgymryd â hyfforddiant laser a Chraidd Gwybodaeth yn ddiweddar i lywio ei hymarfer. Roedd y rheolau lleol wedi'u llofnodi, gan gadarnhau bod y rheolwr cofrestredig yn eu deall.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei bod yn awyddus i gynnal a datblygu ei gwybodaeth a'i harferion yn barhaus mewn perthynas â thriniaethau laser diogel. Fodd bynnag, gan nad oedd y gwasanaeth yn safle ymchwil cofrestredig, cytunwyd y byddai angen iddi ddangos gofal mewn perthynas â rhoi diweddariadau i ymarfer nad oeddent wedi'u cadarnhau'n ffurfiol drwy ymchwil gyhoeddedig ar waith. Rhaid ymgorffori unrhyw ddiweddariadau sy'n ymwneud â thriniaethau laser neu ddiogelwch cleifion gan gyrrff rheoleiddio, proffesiynol a statudol arbenigol, er enghraifft, AGIC, UKHSA, Cymdeithas Laser Meddygol Prydain, Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd, yn yr ymarfer.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod proses ar waith iddi gael diweddariadau gan gyrrff rheoleiddio, proffesiynol a statudol perthnasol i lywio ymarfer diogel.

Technoleg rheoli gwybodaeth a chyfathrebu

Dywedwyd wrthym fod system gydsynio ar-lein wedi cael ei defnyddio o'r blaen ochr yn ochr â chofnodion papur, ond nad oedd yn cael ei defnyddio mwyach gan nad oedd yn diwallu anghenion y gwasanaeth. Roedd y cofnodion papur yn cael eu storio'n ddiogel yn yr ystafell drin er mwyn atal mynediad heb awdurdod. Fodd bynnag, nid oedd amserlen glir ar waith ar gyfer cadw unrhyw gofnodion cleifion.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod amserlen gadw yn cael ei chreu a'i rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod pob math o gofnodion cleifion yn cael eu trin yn unol â'r ddeddfwriaeth.

Rheoli cofnodion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion tri chlaf. Roedd y rhain yn rhoi tystiolaeth glir o'r paramedrau trin a'r ardal o'r corff a gafodd ei thrin. Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC fod eu hanes meddygol wedi cael ei wirio a bod ffurflen gydsynio wedi'i

llofnodi cyn iddynt gael triniaeth. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y cofnodion ysgrifenedig yn dangos bod y gweithdrefnau cydsynio ac asesu a ddisgrifiwyd i ni gan y rheolwr cofrestredig wedi'u rhoi ar waith yn gynhwysfawr yn achos pob claf. Nid oedd manylion llawn y claf nac effeithiau'r driniaeth wedi'u cofnodi'n llawn chwaith, ac nid oedd cofrestr triniaethau ar waith i gasglu gwybodaeth am y defnydd o'r peiriant laser.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:

- **Bod y ffurflen gydsynio ar gyfer triniaeth yn cael ei llofnodi gan y claf**
- **Bod cofnodion cleifion yn dangos bod hanes meddygol llawn cychwynnol y claf wedi'i wirio, a bod gwiriadau dilynol am unrhyw ddiweddariadau wedi'u cynnal**
- **Y gellir cysylltu cofnodion cleifion yn glir â chleifion drwy ddefnyddio dynodyddion wedi'u triogli, a ddefnyddir yn gyson yn nodiadau'r claf**
- **Bod gwybodaeth ansoddol am effeithiau triniaethau neu wybodaeth arall yn cael ei chofnodi er mwyn amddiffyn cleifion a'r rheolwr cofrestredig**
- **Bod cofrestr triniaethau yn cael ei chreu a'i chynnal er mwyn casglu gwybodaeth ynghylch y defnydd o'r peiriant laser.**

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Gwelsom fod yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus a chofrestriad ag AGIC ar waith. Fodd bynnag, nid oedd fersiynau Cymraeg y dogfennau cofrestru wedi'u harddangos.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig arddangos tystysgrifau cofrestru ac amodau cofrestru AGIC yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Cawsom sicrwydd bod y rheolwr cofrestredig yn ymwybodol o swyddogaeth reoleiddio AGIC. Roedd y broses gwyno yn cyfeirio cleifion at AGIC i fynegi pryderon neu wneud cwyn ynghylch eu triniaeth pe na baent yn dymuno cysylltu â'r gwasanaeth yn uniongyrchol.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwelsom fod y rheolwr cofrestredig wedi cael gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn ddiweddar i ddangos ei bod yn addas o ran ei huniondeb a'i chymeriad da ar gyfer ei gwaith yn The Derma Lounge.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Mae'r rheolwr cofrestredig yn unig fasnachwr sy'n berchen ar The Derma Lounge ac yn ei weithredu. Ar adeg yr arolygiad, roedd y gwasanaeth wedi bod yn gofrestredig ac yn weithredol ers tua 18 mis, a dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei bod yn croesawu arolygiad fel proses i'w helpu i ddarparu gwasanaeth diogel sy'n bodloni pob gofyniad. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd ganddi unrhyw gynlluniau i ehangu'r gweithlu na strwythur y busnes, ond dywedodd y byddai'n ceisio cyngor gan AGIC ynghylch y gofynion rheoliadol pe bai'n gwneud cynlluniau i ddatblygu'r gwasanaeth.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Nid oedd gweithdrefnau diogelu clir ar waith.	Nid oedd y rheolwr cofrestredig wedi gallu ymateb i unrhyw bryderon am ddiogelu a nodwyd, a oedd yn golygu bod cleifion yn parhau i wynebu risg o niwed.	Trafodwyd hyn â'r rheolwr cofrestredig yn ystod yr arolygiad.	Lawrlwythodd y rheolwr cofrestredig ap Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar ddiwrnod yr arolygiad.

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: The Derma Lounge

Dyddiad yr arolygiad: 27 Ebrill 2026

Yr hyn sydd angen ei wella		Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Rhaid i'r Rheolwr Cofrestredig ymgymryd â hyfforddiant lefel 2 ar Atal a Rheoli Heintiau er mwyn llywio'r polisïau, y gweithdrefnau a'r ymarfer.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 9(n)	Mae hyfforddiant Lefel 2 ar Atal a Rheoli Heintiau bellach wedi'i gwblhau ac mae'r dystysgrif wedi'i lanlwytho	Lucy Thomas	Wedi'i gwblhau
2.	Mae polisi Atal a Rheoli Heintiau cadarn yn ofynnol, sy'n nodi'r canllawiau y mae'n rhaid i'r staff a chleifion eu dilyn.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 9(n)	Mae polisi Atal a Rheoli Heintiau cadarn bellach wedi'i gwblhau a'i lanlwytho. Mae'r adran ar hylendid dwylo bellach wedi'i diwygio er mwyn cynnwys polisi a threfn manwl. Rwyf hefyd wedi cynnwys adran ynghylch Golchi a Storio Dillad Gwely.	Lucy Thomas	Wedi'i gwblhau

3.	Rhaid creu a chynnal amserlenni glanhau i ddangos bod gweithdrefnau glanhau yn cael eu rhoi ar waith cyn ac ar ôl darparu gofal i gleifion ac yn rheolaidd.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 9(n)	Gofynnais am gyngor ynghylch yr angen am amserlen lanhau yn ystod yr arolygiad gan nad oeddwn yn siŵr a oedd angen un arnaf gan nad oes gennyf staff, ac rwyf bob amser yn glanhau cyn ac ar ôl pob claf, yn ogystal â gwneud gwaith glanhau trylwyr yn rheolaidd. Dywedodd yr aseswyr fod hyn yn orfodol yn gyffredinol felly rwyf bellach wedi creu amserlen lanhau a fydd yn cael ei chwblhau bob dydd. Mae tystiolaeth o hyn wedi'i lanlwytho.	Lucy Thomas	Wedi'i gwblhau
----	---	--	--	-------------	----------------

4.	Mae angen rhoi gweithdrefnau cadarn ar waith ar gyfer trin a gwaredu gwastraff clinigol, gan gynnwys sut y bydd contractwyr yn cael mynediad diogel ato, a darparu cofnod o ddyddiadau casglu gwastraff o'r safle.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 9(n)	Rwyf wedi cael gwybodaeth groes ynghylch gwastraff clinigol yn flaenorol. Fodd bynnag, mae'r contractwr wedi ailddechrau casglu fy ngwastraff clinigol. Mae manylion gweithdrefnau'r contractwr ar gyfer cael mynediad at y gwastraff clinigol wedi'u hychwanegu at y Polisi Atal a Rheoli Heintiau o dan y teitl 'Rheoli Gwastraff'. Mae cofnod o ddyddiadau casglu gwastraff hefyd wedi'i lanlwytho.	Lucy Thomas	Wedi'i gwblhau
Canfyddiadau:		Ni allai AGIC fod yn sicr bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) (2011) 9(n). Y rheswm dros hyn yw nad yw'r polisïau a'r gweithdrefnau mewn perthynas â rheoli heintiau yn ddigon manwl, gan gynnwys hylendid dwylo, trin a thrafod a gwaredu gwastraff clinigol yn ddiogel, trefniadau cadw tŷ a glanhau a hyfforddiant a chynngor perthnasol.			

Yr hyn sydd angen ei wella		Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
5.	Mae'n ofynnol i'r Rheolwr Cofrestredig gadw cofnodion o'r cyfarpar atal a chanfod tân, neu sicrhau eu bod ar gael.	Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 Erthyglau 13 a 17	Rwyf wedi prynu cofnodlyfr diogelwch tân ers yr arolygiad a byddaf yn ceisio cyngor ar ôl i'r asesiad risg tân gael ei gynnal, er mwyn cadw cofnod o'r holl gyfarpar.	Lucy Thomas	Yn mynd rhagddo – 1 mis
6.	Rhaid cadw llwybrau dianc rhag tân yn glir ac yn hygyrch rhag ofn y bydd argyfwng, a rhaid gofalu y gellir agor drysau a llwybrau mynediad yn gyflym ac yn hawdd er mwyn sicrhau bod modd dianc.	Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 Erthyglau 14 (1) (2)	Mae'r landlord wrthi'n newid y drws tân. Rwyf hefyd yn aros am ddyddiad gan Blackwood Fire (y mae Walkers bellach wedi ei gymryd drosodd) i ddarparu asesiad risg ar gyfer pob rhan o'r adeilad.	Lucy Thomas	Yn mynd rhagddo – 1 mis
7.	Rhaid i'r asesiad risg tân gael ei adolygu gan unigolyn cymwys er mwyn cadarnhau addasrwydd y cyfarpar tân, y gweithdrefnau i'w dilyn pe bai tân, a nodi a lliniaru unrhyw beryglon tân eraill.	Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 Erthyglau 9 a 18	Rwyf wedi trefnu y bydd Blackwood Fire, y mae Walkers bellach wedi ei gymryd drosodd, yn cynnal asesiad risg tân ar y safle. Gan fod gennyf drefniant isosod, rwy'n aros am anfoneb newydd ac am alwad yn ôl gan Walkers i drefnu dyddiad yr asesiad risg. Rwyf wedi mynd ar drywydd hyn ar 12/05 a bydd yn anfon anfoneb newydd yr wythnos hon.	Lucy Thomas	Yn mynd rhagddo – 1 mis

Canfyddiadau:

Ni allai AGIC fod yn sicr bod y gwasanaeth yn cydymffurfio ag Erthyglau Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005. Mae hyn oherwydd y canlynol:

- Nid oedd cofnodion ar gael ynghylch cynnal a chadw cyfarpar atal a chanfod tân digonol ar y safle
- Roedd y llwybr dianc rhag tân wedi'i rwystro yn ystod yr arolygiad ac ni ellid ei ystyried yn ddigonol am fod cloeon ar y drysau dianc rhag tân ac ar bwyntiau mynediad eraill i'r adeilad
- Roedd asesiad risg tân wedi'i gynnal ond ni allai ystyried yn llawn addasrwydd y cyfarpar tân, y weithdrefn i'w dilyn pe bai tân, na mesurau lliniaru eraill ar gyfer peryglon tân, gan na allai'r rheolwr cofrestredig ddangos gwybodaeth yn y maes hwn.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Lucy Thomas

Swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 12/05/2026

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: The Derma Lounge

Dyddiad yr arolygiad: 27 Ebrill 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Nid oedd arwyddion dim smygu na fepio wedi'u harddangos i hybu iechyd, llesiant a diogelwch.	Rhaid arddangos arwyddion dim smygu na fepio yn yr ystafell drin ac yn ardaloedd eraill y safle y mae cleifion yn mynd iddynt.	Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020	Mae arwyddion dim smygu/fepio wedi'u harchebu a byddant yn cael eu harddangos cyn gynted â phosibl yn yr ystafell drin a'r toiled.	Lucy Thomas	1 wythnos.

2.	Roedd angen diweddaru'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben er mwyn: • Rhoi gwybod i gleifion y gallant ddod â hebryngwr i apwyntiadau os byddant yn dewis gwneud hynny • Cyfeirio unigolion yn glir at restr brisiau'r gwasanaeth • Rhoi gwybod i gleifion pa fath o fynediad sydd i'r ystafell drin	Roedd angen diweddaru'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben er mwyn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) (2011) 6, 7 ac 8	Mae'r Canllaw i Gleifion a'r Datganiad o Ddiben wedi'u diweddaru i adlewyrchu hyn ac mae copi newydd wedi'i roi i AGIC.	Lucy Thomas	Wedi'i gwblhau.
3.	Nid oedd y canllaw i gleifion ar gael i gleifion fel mater o drefn.	Dylai'r canllaw i gleifion gael ei ddarparu i gleifion fel mater o drefn, er enghraifft drwy'r wefan a/neu yn ystod yr ymgynghoriad cychwynnol, er mwyn llywio penderfyniadau cleifion.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) (2011) 7(2)	Bydd copi o'r Canllaw i Gleifion yn cael ei lanlwytho i'r wefan, a bydd dolen iddo yn cael ei darparu i bob claf yn ystod yr ymgynghoriad cychwynnol.	Lucy Thomas	1 mis.

4.	Roedd gweithdrefn pryderon a chwynion glir ar waith. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw wybodaeth am fynegi pryder neu wneud cwyn ffurfiol ar gael i gleifion, ac nid oedd unrhyw ffyrdd o roi adborth yn cael eu hyrwyddo ar wahân i ddulliau digidol. Gwnaethom hefyd drafod y posibilrwydd o gasglu canmoliaethau a gwybodaeth 'dywedocho chi, gwnaethom ni' yn flynyddol er mwyn rhoi adborth i gleifion ac i AGIC pe bai cais yn cael ei wneud am ddatganiad blynyddol.	- Dylid sicrhau bod cleifion yn cael gwybodaeth lawn am sut i fynegi pryder neu wneud cwyn, a'r camau a fyddai'n cael eu cymryd i ymdrin â'r rhain - Dylid sicrhau bod canmoliaethau a gwybodaeth 'dywedocho chi, gwnaethom ni' a gasglwyd ar gael i gleifion ac at ddibenion arolygu ar gais.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) (2011) 24(3) a 19(3)	Mae gweithdrefn gwyno fwy cadarn wedi'i lanlwytho i'r Canllaw i Gleifion a'r Datganiad o Ddiben, ac rwyf wrthi'n ymchwilio i'r posibilrwydd o osod codau QR yn y clinig er mwyn galluogi cleifion i roi adborth ar ôl eu triniaeth. Mae neges e-bost awtomatig wedi'i sefydlu a chaiff ei hanfon yn uniongyrchol i gyfeiriad e-bost pob claf ar ôl ei driniaeth. Mae cleifion hefyd bellach yn cael eu hannog i roi adborth ysgrifenedig ar eu cerdyn cofnod y claf ar ôl i'r driniaeth gael ei chynnal wrth lofnodi'r ffurflen gydsynio i gadarnhau bod y driniaeth wedi digwydd.	Lucy Thomas	2 fis.
5.	Gwelsom fod rhywfaint o lwch wedi cronni ar y peiriant laser, a bod marciau ar orchudd y gwely ac ar osodiadau yn yr amgylchedd cyffredinol.	Dylid sicrhau bod gwaith glanhau yn cael ei gwblhau i safon gyson uchel er mwyn helpu i atal a rheoli heintiau.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) (2011) 15(8)(c)(i)	Mae'r llwch wedi'i dynnu oddi ar olwynion y peiriant laser ac mae'r sofffa wedi'i atgyweirio. Mae cofnod glanhau bellach ar waith ac wedi'i osod yn yr ystafell drin a'r ystafell ymolchi, ac mae gwaith pellach wrthi'n cael ei wneud yn y clinig hefyd i wella'r amgylchedd a'r cyfleusterau.	Lucy Thomas	2 fis.

6.	Nid oedd unrhyw finiau gwastraff clinigol ar wahân na chontract gwaredu.	Rhaid rhoi trefniadau addas ar waith ar gyfer gwaredu gwastraff clinigol.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) (2011) 15(8)(c)(iii)	Rwyf wedi ailddechrau fy nghontract gwastraff clinigol yn dilyn achos o gamgyfathrebu. Rwyf hefyd wedi darparu tystiolaeth i AGIC o ddyddiadau casglu.	Lucy Thomas	Wedi'i gwblhau.
----	--	---	---	--	-------------	-----------------

7.	Nid oedd proses ar waith i'r rheolwr cofrestredig gael diweddariadau rheolaidd gan gyrff rheoleiddio, proffesiynol a statudol perthnasol.	Rhaid nodi a chyflwyno proses ar gyfer cael diweddariadau gan gyrff rheoleiddio, proffesiynol a statudol perthnasol i lywio ymarfer diogel.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) (2011) 15(10)	Rwyf wedi lawrlwytho canllawiau trin BMLA a byddaf yn gwneud nodyn yn fy nghalendr i wirio bob ychydig fisoedd a ydynt wedi cael eu diweddaru. Rwyf hefyd yn dilyn BMLA ar y cyfryngau cymdeithasol lle gallaf weld diweddariadau rheolaidd. Rwyf hefyd yn rhan o grŵp cymunedol proffesiynol ar Facebook sy'n cynnig cyngor a chymorth i esthetegwyr laser, gan gynnwys grwpiau proffesiynol eraill. Rwyf hefyd yn gwrandao ar bodlediadau rheolaidd ynglŷn â diogelwch laser gan Dermalase, sy'n gwmni yn y DU, a byddaf yn parhau i wneud hynny. Ar ben hynny, byddaf yn gweld a yw'n bosibl cofrestru i gael diweddariadau drwy e-bost gan gyrff proffesiynol eraill megis AGIC, UKHSA a'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd, ac os na allaf wneud hynny, byddaf yn gwirio bob	Lucy Thomas	Parhaus
----	---	---	--	---	-------------	---------

				ychydig fisoedd am ddiweddariadau.		
8.	Nid oedd amserlen ar waith ar gyfer cadw cofnodion cleifion.	Dylid creu amserlen gadw a'i rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod pob math o gofnodion cleifion yn cael eu trin yn unol â'r ddeddfwriaeth.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) (2011) 23(1)(b) a (3)(c), Atodlen 3 Rhan I	Mae'r polisi cadw wedi'i leoli yn ein dogfen Polisiâu a Gweithdrefnau, ac mae wedi'i ddiweddarau er mwyn cynnwys rhagor o wybodaeth i ategu hyn.	Lucy Thomas	Wedi'i gwblhau.

9.	Nid oedd cofnodion ysgrifenedig cleifion yn cael eu cwblhau yn unol â'r safonau disgwyledig.	Dylid creu a chynnal cofnodion cleifion cynhwysfawr ar gyfer pob claf sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a dylent gynnwys: • Asesiad cynhwysfawr sy'n llywio gofal diogel sydd wedi'i deilwra at yr unigolyn • Cydsyniad wedi'i lofnodi gan y claf • Hanes meddygol llawn cychwynnol a diweddariadau dilynol yn ystod apwyntiadau am driniaeth • Dynodyddion cleifion clir a ddefnyddir yn gyson yn nodiadau'r claf • Gwybodaeth ansoddol am effeithiau'r triniaethau neu wybodaeth arall.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) (2011) 9(4)(b) a 23(1)(a)(ii)	Mae pob ffurflen ymgynghori bellach yn cael ei chwblhau ar bapur yn ystod yr ymgynghoriad wyneb yn wyneb. Yn dilyn trafodaeth ag AGIC, caiff sylwadau eu gwneud ar ôl pob sesiwn driniaeth a'u cofnodi ar daflen gofnodion y claf, hyd yn oed os nad oes llawer i'w ddweud. Cyn pob sesiwn driniaeth, gofynnir i'r claf a fu unrhyw newidiadau meddygol a chofnodir hyn ar ei ffurflen. Mae pob cwestiwn bellach yn cael ei lenwi'n fanwl ac os bydd adran yn cael ei adael yn wag am unrhyw reswm, bydd tystiolaeth ysgrifenedig yn cael ei darparu i egluro'r rheswm dros hynny. Yn ystod yr ymgynghoriad cychwynnol caiff y claf hefyd gyngor ar ofal cyn ac ar ôl y driniaeth, a chaiff y cyngor hwn ei ailbwysleisio cyn ac ar ôl pob sesiwn driniaeth.	Lucy Thomas	Parhaus.
----	--	---	--	---	-------------	----------

10.	Nid oedd cofrestr triniaethau ar waith i gasglu gwybodaeth am y defnydd o'r peiriant laser.	Dylid creu a chynnal cofrestr triniaethau.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) (2011) 45(2)	Mae Cofrestr Triniaethau wedi'i chreu drwy Excel a chaiff ei chwblhau ar ddechrau pob diwrnod. Gellir ei darparu ar gais.	Lucy Thomas	Wedi'i gwblhau.
11.	Nid oedd tystysgrif nac amodau cofrestru AGIC wedi'u harddangos yn Gymraeg.	Dylid arddangos tystysgrifau cofrestru ac amodau cofrestru AGIC yn Gymraeg ac yn Saesneg.	Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011	Mae'r dystysgrif a'r amodau Cymraeg bellach wedi'u harddangos ochr yn ochr â'r fersiwn Saesneg.	Lucy Thomas	Wedi'i gwblhau.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Lucy Thomas

Swydd: Rheolwr Cofrestredig/Perchennog

Dyddiad: 13/06/2026